



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddoniaeth Iechyd, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn gwrthbwysu unrhyw gostau.

**Vaughan Gething**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**6 Awst 2020**

## **RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **1. Disgrifiad**

1.1. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn newid rheolaeth i system mynediad i'r farchnad ac ymadael â'r farchnad mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno Asesiadau o Anghenion Fferyllol y mae gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol eu paratoi a'u cyhoeddi mewn perthynas â'u hardaloedd. Bydd y Rheoliadau yn diddymu a disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013, yn amodol ar y darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau 2020.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1. Rheoliadau 2020 yw'r gyntaf mewn cyfres o reoliadau a wneir yn unol ag adran 82A of o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"). Yn unol ag adran 203(6A) o Ddeddf 2006, ni ellir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau cyntaf yn unol ag adran 82A (asesiadau o anghenion fferyllol) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i gyflwyno gerbron Senedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo ganddo. Felly, bydd Rheoliadau 2020 yn dilyn gweithdrefn ddeddfwriaethol gadarnhaol Senedd Cymru.

2.2 Cafodd yr Offeryn Statudol drafft (OS) ei osod gerbron Senedd Cymru ar 17 Mawrth 2020 cyn i ddadl gael ei chynnal yn y cyfarfod llawn ar 28 Ebrill 2020. Fe'i tynnwyd yn ôl wedi hynny ar 21 Ebrill 2020 o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Yna gosodwyd yr OS drafft gerbron y Senedd ar 8 Gorffennaf 2020 a bwriedir cynnal dadl yn y cyfarfod llawn ar 23 Medi 2020.

2.3 Ar 28 Gorffennaf 2020 lluniodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad drafft yn tynnu sylw at un pwynt craffu technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(vi). Er bod y pwynt a godwyd yn un technegol ei natur, roedd yn ymwneud â phedair prif ddarpariaeth yn yr OS drafft, a fyddai'n golygu y byddai'r OS yn ddiffygiol pe bai'n cael ei wneud ar y ffurf y'i gosodwyd ac na fyddai modd ei gywiro drwy'r broses gyhoeddi.

2.4 Mae Llywodraeth Cymru, gan dderbyn y pwyntiau a godwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, yn dymuno sicrhau bod deddfwriaeth yn glir ac yn sicr o ran ei heffaith. Felly, manteisiodd ar y cyfle i gywiro'r darpariaethau angenrheidiol, gan fod digon o gyfle o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol i wneud hynny heb effeithio ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod llawn a'r dyddiadau dilynol pan fyddai'r ddeddfwriaeth yn dod i rym.

2.5 Ni chaiff rhai darpariaethau penodol o Reoliadau 2013 eu dirymu ar unwaith pan ddaw Rheoliadau 2020 i rym, a hefyd ni fydd rhai darpariaethau penodol o Reoliadau 2020 yn cael effaith ar unwaith.

2.6 Caiff rheoliad 8(1)(a) o Reoliadau 2013 ei ddirymu ar 31 Mawrth 2021 ond ni ddaw'r rheoliad newydd yn ei le, sef rheoliad 15(1)(a) o Reoliadau 2020, i rym tan 1 Hydref 2021. Mae cyfnod 'segur' o 6 mis wedi'i greu gan y bwllch rhwng dirymu darpariaeth ceisiadau Rheoliadau 2013 a phan ddaw darpariaeth ceisiadau Rheoliadau 2020 i rym. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd modd i ymgeiswyr wneud cais i gael eu cynnwys ar restr fferyllol. Mae hyn yn fwriadol. Ni fyddai'n ymarferol i Fyrddau Iechyd Lleol barhau i gymryd ceisiadau o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2013 hyd at yr adeg pan gyhoeddir eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf.

Hefyd, byddai'n amhosibl gwneud cais o dan y rheoliadau newydd hyd nes y mae Asesiad o Anghenion Fferyllol wedi'i gyhoeddi, gan na fyddai ymgeiswyr yn gwybod pa angen y maent yn gwneud cais ar ei gyfer. Bydd y bwlch 6 mis yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ddelio â'r ceisiadau hynny a wnaed o dan Reoliadau 2013 (hyd at y pwynt y mae hynny'n bosibl) gan hefyd eu galluogi i gwblhau a chyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf yn barod at y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid iddynt gyhoeddi eu Hasesiadau. Wedyn, bydd modd gwneud ceisiadau (bydd hyn flwyddyn o'r dyddiad pan ddaw'r darpariaethau cychwynnol i rym).

2.7 Yn yr un modd, caiff rheoliad 20 o Reoliadau 2013 ei ddirymu ar 31 Mawrth 2021 ond ni ddaw'r rheoliad newydd yn ei le, sef rheoliad 26 o Reoliadau 2020, i rym tan 1 Hydref 2021. Eto, cafodd y bwlch hwn ei greu yn fwriadol fel y bydd cyfnod 'segur' o 6 mis pan na fydd modd i feddygon sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol wneud cais. Fel y nodir uchod, bydd hyn hefyd yn galluogi'r byrddau iechyd i ganolbwyntio ar gwblhau a chyhoeddi eu Hasesiadau o Anghenion Fferyllol. Bydd angen i'r Asesiadau hyn ystyried y ddarpariaeth bresennol o feddygon fferyllol.

2.8 Ar ôl i'r Rheoliadau drafft gael eu tynnu'n ôl y tro cyntaf ym mis Ebrill 2020, newidiwyd y dyddiadau dod i rym gwreiddiol ar gyfer y rhannau perthnasol o Reoliadau 2020 i'r rhai a nodir ym mharagraffau 2.5 i 2.7. Roedd hyn yn ganlyniad angenrheidiol i'r penderfyniad dilynol i ailosod y Rheoliadau drafft ym mis Gorffennaf 2020 ac aildrefnu'r cyfarfod llawn tan ddyddiad ym mis Medi. Mae hefyd yn werth nodi bod elfennau sylweddol o ddarpariaethau Rheoliadau 2013 wedi'u cadw yn Rheoliadau 2013.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") yn ceisio gwella ac amddiffyn iechyd a llesiant poblogaeth Cymru, trwy ddarpariaeth, mewn meysydd arwahanol o bolisi iechyd cyhoeddus. Mae Rhan 7 o Ddeddf 2017 yn diwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, a daeth i rym trwy Orchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 ar 1 Ebrill 2019.

3.2 Mae Rhan 7 o Ddeddf 2017 yn mewnosod adran 82A newydd i Ddeddf 2006 sy'n pennu dyletswydd newydd ar i Fyrddau Iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol (Asesiad o Anghenion Fferyllol) yn ogystal â rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesu anghenion fferyllol yng Nghymru. Mae Deddf 2017 yn diwygio adran 83 o Ddeddf 2006 hefyd fel y gall rheoliadau a wneir yn unol ag adran 82A ddarparu seiliau i dynnu person oddi ar y rhestr fferyllol nad ydynt yn gysylltiedig ag addasrwydd person i ymarfer (h.y. system ymadael â'r farchnad).

3.3. Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a amlinellir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon fferyllol yw'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn y bôn. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

3.4 Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol ac, ymysg pethau eraill, yn amlinellu'r gofyniad ar i reoliadau ei gwneud hi'n ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi

rhestr fferyllol ac yn amlinellu'r profion y mae'n rhaid i'r bobl hynny sydd eisïau darparu gwasanaethau fferyllol eu pasïo er mwyn gallu gwneud hynny (y 'prawf rheoli mynediad').

3.5 Mae adran 84 yn amlinellu gofyniad ar i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau i apelïo yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrdau iechyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wnaed o dan adran 83.

3.6 Gwneir Rheoliadau 2020 yn unol â phwerau gweinidogion Cymru yn adrannau 15, 80, 82A, 83, 84, 86, 88, 104, 107, 110, 115, 116, 118, 203(6A), (9) a (10) a 205 o Ddeddf 2006.

3.7 Mae'r Rheoliadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru trwy'r weithdrefn gadarnhaol.

#### **4. Diben y Ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

##### **Cefndir**

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu ynddo trwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, byrdau iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad y fferyllfeydd yn eu hardaloedd.

4.2 O dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"), y byrdau iechyd sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, ynghyd ag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG. Mae byrdau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys eiddo fferyllol ar restrau fferyllol yn caniatáu i'r fferyllfa ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn yr eiddo hwnnw.

4.3 Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau fferyllol y GIG, yn hytrach na'r hawl i agor a chynnal busnes fferylliaeth yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ledled y DU, sef Deddf Meddyginiaethau 1968.

4.4 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau eang i wneud rheoliadau a chyhoeddi cyfarwyddiadau i fyrdau iechyd, sy'n llywodraethu manylion system gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nodi'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr y GIG a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y mae'n rhaid ei fodloni cyn y gall bwrdd iechyd gymeradwyo cais am i fferyllfa gael ei chynnwys ar y rhestr fferyllol, neu ddiwygio manylion fferyllfa sydd wedi'i chynnwys ar y rhestr fferyllol.

4.5 Ar hyn o bryd, mae'r personau hynny sydd eisïau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn cyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"). Yna, mae'r bwrdd iechyd yn penderfynu a yw'r cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Mae Rheoliadau 2013 yn caniatáu i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio trwy gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

4.6 Felly, mae'r system bresennol o ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn cael ei sbarduno gan y rhai sydd eisïau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Nhw sy'n penderfynu pa wasanaethau y maent eisïau eu darparu ac ym mha leoliad. Mae hyn yn golygu bod y

system bresennol yn ymatebol i geisiadau ac nad yw byrddau iechyd yn gallu cynllunio ble mae fferyllfeydd wedi'u lleoli na chyfarwyddo pa wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu yn y lleoliadau hynny.

## **Diben y Rheoliadau**

4.7 Prif ddiben y Rheoliadau hyn yw newid y ffordd mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu yng Nghymru trwy gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol.

4.8 Mae Aseiad o Anghenion Fferyllol yn ddatganiad o aseiad y mae'n ofynnol i fwrdd iechyd ei wneud, o leiaf bob 5 mlynedd, ynghylch anghenion gwasanaethau fferyllol a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru yn ei ardal.

4.9 Bydd Rheoliadau 2020 yn cyflwyno'r gofyniad ar i fyrddau iechyd gynnal asesiadau o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan y bobl hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Bydd y rheoliadau yn diddymu a disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) ("Rheoliadau 2013") sydd yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

## **Effaith fwriedig y darpariaethau**

4.10 Effaith fwriedig cyflwyno anghenion fferyllol yw gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol trwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau yn ofalus ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cyfateb i'r anghenion hynny. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull mwy integredig i nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen fferyllfeydd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn diwallu anghenion fferyllol yn ddigonol a ble mae angen i fferyllfeydd presennol ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

4.11 Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr fferyllfeydd, gan leihau risg y busnes a'u galluogi i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd.

4.12 Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn dod yn fwy ymatebol hefyd i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau yn effeithiol i ddiwallu anghenion fferyllol a nodir. Lle mae diffyg ansawdd neu ddarpariaeth gyson, bydd byrddau iechyd yn gallu rhoi mesurau gwella ar waith. Gallai'r rhain gynnwys cymryd camau yn erbyn rhai fferyllfeydd am dorri telerau ac amodau gwasanaeth dro ar ôl tro. Dylai hyn arwain at fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau yn fwy cyson ac i safon uwch, a sicrhau bod fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau mewn lleoliadau lle mae eu hangen. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynnwys fferyllfeydd newydd ar y rhestrau fferyllol yn fwy tryloyw. Yn y pen draw, bydd y newidiadau yn arwain at wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol y GIG ledled Cymru.

4.13 Mae'r Rheoliadau yn amlinellu'r gofynion ar i fyrddau iechyd baratoi a chynnal rhestrau fferyllol o fferyllwyr GIG a chontractwyr cyfarpar GIG sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau fferyllol o eiddo yn yr ardal; a rhestrau o feddygon fferyllol sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau fferyllol o eiddo yn yr ardal. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu'r telerau

gwasanaeth sy'n amodol wrth gynnwys unigolion ar restrau fferyllol neu restrau meddygon fferyllol ac y maent yn ymrwmo atynt wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

4.14 Mewn rhai amgylchiadau, gwneir darpariaeth i feddygon ddarparu gwasanaethau fferyllol i gleifion pan fodlonir meini prawf penodol. Yn ogystal, amlinellir y math o geisiadau mewn perthynas â rhestrau fferyllol, a'r meini prawf sy'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r cais cael ei dderbyn.

4.15 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri telerau gwasanaeth gan fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG.

4.16 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hefyd elfennau sylweddol o ddarpariaeth Rheoliadau 2013 yn cael eu cadw yn Rheoliadau 2020.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am Reoliadau drafft 2020 dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 30 Medi a 25 Tachwedd 2019.

5.2 Amlinellodd yr ymgynghoriad y newidiadau hynny i'r fframwaith rheoleiddio presennol, ond nid oedd yn cwmpasu pob un o ddarpariaethau Rheoliadau drafft 2020 gan nad oes angen diweddarau pob un o'r darpariaethau o Reoliadau 2013.

5.3 Roedd yr ymgynghoriad yn chwilio am farn byrddau iechyd, pobl a all wneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG neu wasanaethau meddygon fferyllol, cyrff proffesiynol â diddordeb yng ngwasanaethau fferyllol y GIG, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd ar Reoliadau drafft 2020 a gynnigir gan Weinidogion Cymru.

5.4 Ar 11 Hydref 2019, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Mynychwyd y digwyddiad gan amrywiaeth o gynrychiolwyr fferyllfeydd cymunedol, gofal sylfaenol a byrddau iechyd.

5.5. Derbyniwyd 19 ymateb i'r ymarferiad ymgynghori ffurfiol gan gwmnïau manwerthu fferyllol; sefydliadau cynrychioliadol ac unigolion. I raddau helaeth, roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r argymhellion yn y ddogfen ymgynghori a'r Rheoliadau drafft arfaethedig.

5.6 Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni am y cyfnod amser a oedd gan fyrddau iechyd i gynnal a chyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf a gofynnwyd am ei ymestyn. Bu'r swyddogion yn ystyried y pryderon hyn ac yn sgil hynny, newidiwyd y rheoliadau drafft i ganiatáu 12 mis i fwrdd iechyd gwblhau a chyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol wedi i Reoliadau 2020 ddod i rym. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i fyrddau iechyd gwblhau a chyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol erbyn 1 Hydref 2021 ac o hynny ymlaen rhaid penderfynu ar bob cais am gynnwys neu newid y rhestrau fferyllol yn erbyn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol perthnasol.

5.7 Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd, ac ymateb Llywodraeth Cymru, i'w gweld yn y ddogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

[https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-01/rheoliadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-fferyllol-cymru-2020-ymgynghoriad-crynodeb-o-ymatebio\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-01/rheoliadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-fferyllol-cymru-2020-ymgynghoriad-crynodeb-o-ymatebio_0.pdf)

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

#### Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi ei lunio i ystyried goblygiadau cyflwyno Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"). Prif effaith cyflwyno'r Rheoliadau ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yng Nghymru fydd rhagnodi'r gofyniad i fyrddau iechyd lunio asesiadau o anghenion fferyllol.

#### Ystyriaethau Costau a Manteision

Rhodddwyd ystyriaeth fanwl i gostau a manteision cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yn ystod datblygiad Rhan 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ac o'r herwydd maent yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Gwasanaethau Fferyllol Rhan 6 (fel y'i gelwid ar y pryd ac a ddaeth yn Ddeddf wedi iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017) sydd ar gael ar wefan Senedd Cymru<sup>1</sup>. Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd wrth i'r Bil fynd rhagddo yn parhau i fod yn ddilys, ac o ganlyniad, at ddiben y Rheoliadau, mae'r costau a'r manteision yn cael eu crynhoi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn a'u diweddarau lle mae data mwy diweddar ar gael.

#### Opsiynau

Nododd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) dri opsiwn polisi o safbwynt darpariaeth gwasanaethau fferyllol:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim – dim newid i'r system bresennol o ddarparu gwasanaethau fferyllol.
- **Opsiwn dau (yr Opsiwn a Ffefrir)** – Diwygio Deddf 2006 i alluogi gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n disodli'r system bresennol gyda mynediad yn seiliedig ar angen gan ddefnyddio asesiadau o anghenion fferyllol, a chyflwyno cosbau yn ymwneud â pherfformiad, a system ymadael â'r farchnad sy'n caniatáu gweithredu effeithiol yn erbyn darparwyr sy'n tanberfformio neu sy'n torri telerau gwasanaeth.
- **Opsiwn tri** – diddymu trefniadau rheoli mynediad a chaniatáu marchnad rydd ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol y GIG.

Deddfwyd ar gyfer opsiwn dau (yr Opsiwn a Ffefrir) yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn felly'n ystyried dau opsiwn:

- **Opsiwn Un** – Gwneud dim.

---

<sup>1</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10796-em/pri-ld10796-em-w.pdf>

- **Opsiwn Dau (yr opsiwn a ffefrir)** – Defnyddio'r pwerau sydd newydd eu rhoi yn adrannau 82A ac 83 o Ddeddf 2006 (ar y cyd â phwerau eraill sy'n bodoli eisoes) i wneud rheoliadau i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol a system ymadael â'r farchnad yng Nghymru.

## **Opsiwn Un – Gwneud Dim**

### **Disgrifiad**

Ni fyddai unrhyw newid yn cael ei wneud i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn golygu bod yr unigolion hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru yn dal yn gorfod cyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 29013. Byddai'r bwrdd iechyd yn dal i benderfynu a yw'r cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio ac yn ymatebol i geisiadau ac yn methu â chynllunio lle mae fferyllfeydd wedi'u lleoli neu bennu pa wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny. Byddai byrddau iechyd yn parhau i fethu ymateb yn briodol i anghenion fferyllol eu poblogaethau.

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw newidiadau i bolisi a byddai cyfanswm y fferyllfeydd yng Nghymru'n parhau yn sefydlog gan y byddai'r trefniadau cyfredol yn parhau i fod yn rhwystr i fynediad i'r farchnad. Byddai cynnydd graddol iawn yn nifer y fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol.

Byddai amrywiaethau yng nghynlluniau gwasanaethau fferyllol gan fyrddau iechyd yn parhau, a byddai comisiynu gwasanaethau yn parhau i fod yn wahanol. Byddai'r fferyllfeydd hynny sydd ar hyn o bryd yn dewis peidio â darparu gwasanaethau ychwanegol yn parhau i wrthsefyll ceisiadau i wella'r gwasanaeth maent yn ei gynnig, er anfantais i boblogaethau lleol. Byddai'r gyfran uchel o geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG sy'n arwain at apeliadau i Weinidogion Cymru yn parhau.

### **Costau**

Noder: Mae pob cwantwm yn y dadansoddiad hwn wedi ei dalgrynnu i'r £100 agosaf.

#### Llywodraeth Cymru

Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Byddai Gweinidogion Cymru'n parhau i benderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau byrddau iechyd, mewn perthynas â cheisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG ac achosion o dorri telerau gwasanaeth. Felly byddai'r costau yr un peth â'r costau presennol ac yn ymwneud â dyletswyddau gweinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau. Amcangyfrifwyd bod costau apêl i Awdurdod Ymglyfreitha'r GIG o dan drefniadau yn Lloegr, a oedd ar y pryd yn cyfateb i drefniadau yng Nghymru oddeutu £6,000 am bob apêl<sup>2</sup> (ar brisiau 2007-08 – o'i newid yn unol â chwyddiant, £7,300 ar brisiau 2018-19<sup>3</sup>), a dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Er yn digwydd yn anaml, byddai penderfyniadau

<sup>2</sup> Adran Iechyd y DU (2008). Impact assessment of proposals to reform 'market entry' based on pharmaceutical needs assessment. Yr Adran Iechyd, Llundain.

<sup>3</sup> GDP Deflator Series 2018-19 ( <https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-december-2019-quarterly-national-accounts> )



Gweinidogion Cymru ar apêl yn ddarostyngedig i her trwy adolygiad barnwrol<sup>4</sup>. O brofiad adolygiadau blaenorol, amcangyfrifir bod cost adolygiad barnwrol oddeutu £30,000.

### Byrddau iechyd

Byddai byrddau iechyd yn parhau i benderfynu ynghylch ceisiadau gan bobl sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG trwy'r profion statudol cyfredol. Cyflwynwyd 10 cais o'r fath yn 2018-19<sup>5</sup>. Byddai byrddau iechyd hefyd yn parhau i benderfynu ar achosion honedig o dorri telerau gwasanaeth ar gais byrddau iechyd eraill. Gyda'r sefyllfa bresennol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr dalu ffi mewn perthynas â'u cais er mwyn digolledu GIG Cymru o ran y costau ynghlwm wrth wneud penderfyniad. Mae'r ffi ar hyn o bryd yn £600<sup>6</sup> am geisiadau llawn i ddarparu gwasanaethau fferyllol, gyda ffi is am newid perchnogaeth, yn adlewyrchu lefel y gwaith gweinyddol i'r byrddau iechyd. Er bod y ffioedd hyn yn newid dros amser, byddant yn parhau i fod ar lefel sy'n gymesur â'r gwaith mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ei wneud i benderfynu ynghylch pob cais. Felly byddai costau yn gyfartal â'r hyn ydynt ar hyn o bryd.

### Eraill

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn i eraill fel contractwyr fferyllfeydd cyfredol, pwyllgorau fferyllol lleol, cynghorau meddygol lleol neu gynghorau iechyd cymunedol, ac mae modd iddynt i gyd gyflwyno achosion mewn perthynas â cheisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i gleifion ychwaith. Byddai unrhyw gostau ynghlwm wrth y system bresennol yn parhau.

### **Manteision**

Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn codi o'r opsiwn hwn.

Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol yn crynhoi o ganlyniad i'r opsiwn hwn o'i gymharu â'r sefyllfa gyfredol.

### **Casgliad**

Nid yw'r opsiwn i wneud dim yn cael ei ystyried yn ddigonol nac yn addas, gan na fyddai dull effeithiol gan fyrddau iechyd o gynllunio darpariaeth gwasanaethau fferyllol mewn perthynas ag anghenion eu poblogaethau. Byddai gwybodaeth am anghenion poblogaethau am wasanaethau fferyllol ledled Cymru yn parhau'n gyfyngedig.

**Opsiwn 2 – Disodli'r system gyfredol gyda mynediad yn seiliedig ar angen sy'n defnyddio Aseidiadau o Anghenion Fferyllol, a chyflwyno system ymadael sy'n caniatáu gweithredu effeithiol yn erbyn darparwyr sy'n tanberfformio neu sy'n torri telerau gwasanaeth.**

### **Disgrifiad**

Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno aseidiadau o anghenion fferyllol a system ymadael â'r farchnad yng Nghymru.

---

<sup>4</sup> Dim ond un adolygiad barnwrol o'r fath a gynhaliwyd yn ystod y chwe mlynedd flaenorol.

<sup>5</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/community-pharmacy-services-april-2018-march-2019.pdf>

<sup>6</sup> Wrth benderfynu ar y ffi sy'n daladwy gan yr unigolion sy'n gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol, mae partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn amcangyfrif cost i GIG Cymru o £600 y cais ar amser ei gyflwyno yn 2013.

Byddai'r Rheoliadau yn cyflwyno gofyniad i bob bwrdd iechyd gynhyrchu a chyhoeddi Asesiad o Anghenion Fferyllol ar gyfer eu hardaloedd ac i fynd ymlaen i ddefnyddio'r asesiad i benderfynu ynghylch ceisiadau gan bobl sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Byddent hefyd yn cyflwyno system ymadael â'r farchnad a fyddai'n caniatáu i fyrddau iechyd fynd i'r afael â darparu gwasanaethau fferyllol sy'n tanberfformio.

Ni fydd fferyllfeydd sy'n dymuno cael yr hawl i ddarparu gwasanaethau y GIG yn cael gwneud hynny oni allant ddangos fod angen lleol neu angen am wasanaeth penodol nad yw'n cael ei fodloni yn mynd i gael ei fodloni trwy ganiatáu iddynt ddarparu gwasanaethau fferyllol.

## Costau

### Llywodraeth Cymru

Cafodd y costau i Lywodraeth Cymru o gyhoeddi y byddai'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ym mis Hydref 2020, ynghyd â chynhyrchu a dosbarthu canllawiau anstatudol o gefnogi byrddau iechyd wrth gynhyrchu Asesiad o Anghenion Fferyllol a phenderfynu ar geisiadau am fynediad i'r farchnad, wedi eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017.

Bydd angen cynnal ymarfer cyfathrebu ar raddfa fach gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno'r Rheoliadau hyn. Bydd yr ymarfer hwn yn hysbysu'r rhanddeiliaid allweddol hynny o'r Rheoliadau newydd ac yn eu gwneud yn ymwybodol o ofynion asesiadau o anghenion fferyllol a system ymadael â'r farchnad. Bydd cyfathrebu yn digwydd trwy nifer o ddulliau dwyieithog presennol a gwahanol, megis e-byst a llythyrau at y rhanddeiliaid priodol fel sy'n briodol.

Amcangyfrifir bod costau staffio i gynhyrchu'r canllawiau (yn seiliedig ar 18,000 o eiriau) yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n addas i'r diben, oddeutu £6,000. Seilir hyn ar 25 diwrnod o waith amser llawn swyddog gweithredol (£28,200<sup>7</sup> i ddatblygu'r canllawiau) a darpariaeth dan gcontract Comisiynu Gofal Sylfaenol i adolygu a chyfrannu at ddrafftio canllawiau ar gost o £2,800. Amcangyfrifir y byddai cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £1,700<sup>8</sup>. Byddai'r canllawiau yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig, felly ni fyddai unrhyw gostau cyhoeddi.

Mae'r nifer o apeliadau i Weinidogion Cymru yn ystod unrhyw gyfnod yn amrywio'n sylweddol. Mae'n bosibl y bydd apeliadau sy'n cael eu derbyn un flwyddyn yn cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn ganlynol, ac mewn rhai achosion, fel rhai sy'n ymwneud ag adolygiadau barnwrol, gall penderfyniad apêl gael ei oedi ymhellach. Amcangyfrifir bod nifer yr apeliadau sy'n galw am benderfyniad gan Weinidogion Cymru yn 4 y flwyddyn ar gyfartaledd, ar sail y nifer o apeliadau a benderfynwyd arnynt isod.

<b>Blwyddyn</b>	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
<b>Nifer o apeliadau a benderfynwyd</b>	7	3	2	4

<sup>7</sup> Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru @ Ebrill 2019 a'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

<sup>8</sup> Yn seiliedig ar £75 fesul 1,000 o eiriau am gyfieithiad, £21 fesul 1,000 o eiriau am brawfddarllen.

Amcangyfrifwyd eisoes fod costau apêl i Awdurdod Ymglyfreitha'r GIG o dan drefniadau yn Lloegr, a oedd ar y pryd yn cyfateb i drefniadau yng Nghymru, oddeutu £6,000 am bob apêl<sup>9</sup> (£7,300 o'i uwchraddio'n unol â chwyddiant<sup>10</sup>). Disgwylir i nifer yr apeliadau y penderfynir arnynt yn 2019-20 i aros ar 4. Byddai hyn yn gyfystyr â chost flynyddol o £29,200 i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar 4 apêl yn 2019-20. Yn dilyn cyflwyno Asesiad o Anghenion Fferyllol, rhagwelir gostyngiad tebygol o 25% mewn achosion.

### Arbedion Cost i Lywodraeth Cymru

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar apeliadau a wneir yn erbyn penderfyniadau'r byrddau iechyd o ran ceisiadau i'w cynnwys neu i ddiwygio rhestrau fferyllol neu restrau meddygon fferyllol. O dan y trefniadau cyfredol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl penderfynu ar oddeutu 4 apêl y flwyddyn.

Disgwylir y byddai gostyngiad yn nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau byrddau iechyd, ond mae ansicrwydd ynghylch sawl apêl fyddai'n cael ei gyflwyno yn dilyn y newidiadau. Byddai hyn oherwydd y byddai penderfyniadau byrddau iechyd yn fwy tryloyw ac yn fwy dealladwy, ond hefyd oherwydd y disgwyliad y byddai cael Asesiad o Anghenion Fferyllol ar waith yn arwain at lai o geisiadau ar hap yn y lle cyntaf. Byddai hyn oherwydd y byddai Asesiad o Anghenion Fferyllol bwrdd iechyd yn ei gwneud yn amlwg yn syth nad oes angen gwasanaethau fferyllol ychwanegol.

At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, dangosir amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl yn y tabl isod, yn nodi'r sefyllfaoedd achos ar eu gorau, ar eu gwaethaf a mwyaf tebygol yn dilyn y newid. Bydd angen i fyrddau iechyd ystyried ceisiadau am gynnwys pobl ar y rhestr fferyllol yn erbyn meini prawf Rheoliadau 2020 o fis Hydref 2021. Tybir y bydd penderfyniadau ynghylch unrhyw apêl sydd eisoes ar waith dan y system bresennol yn cael eu cwblhau yn ystod 2020-21.

<b>Blwyddyn</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-2022</b>	<b>2022-23</b>
Apeliadau a ddisgwylir dan y system bresennol	4	4	4	4
Amcangyfrif o gost apeliadau (£ miloedd)	29,200	29,200	29,200	29,200
Gostyngiad mewn apeliadau dan y system newydd (ar ei orau)	0%	50%	50%	50%
Gostyngiad mewn apeliadau	0%	0%	0%	0%

<sup>9</sup> Adran Iechyd y DU (2008). Impact assessment of proposals to reform 'market entry' based on pharmaceutical needs assessment. Yr Adran Iechyd. Llundain.

<sup>10</sup> GDP Deflator Series 2018-19 ( <https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-december-2019-quarterly-national-accounts> )

dan y system newydd (ar ei waethaf)				
Gostyngiad mewn apeliadau dan y system newydd (tebygol)	0%	25%	25%	25%
Amcangyfrif o arbedion dan y system newydd (£) (ar ei orau)	0	14,600	14,600	14,600
Amcangyfrif o arbedion dan y system newydd (£) (ar ei waethaf)	0	0	0	0
Amcangyfrif o arbedion dan y system newydd (£) (tebygol)	0	7,300	7,300	7,300

Y sefyllfa fwyaf tebygol yw y byddai gostyngiad o 25% yn nifer yr apeliadau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt. Byddai hyn yn arwain at amcangyfrif o £7,300 o arbedion y flwyddyn o 2020-21.

### Byrddau Iechyd

#### *Cost o gwblhau Asesiadau o Anghenion Fferyllol*

Tybir y byddai cwblhau Asesiad o Anghenion Fferyllol yn gofyn am fewnbwn gan un uwch reolwr o fwrdd iechyd am 60 diwrnod a gan un swyddog gweinyddol cynorthwyol am 20 diwrnod. Gwerthusir eu cyflogau blynyddol ar bwynt canol bandiau 8b a 4 Agenda ar gyfer Newid, sef £80,600 a £31,400 (Agenda ar gyfer Newid 2020-21 ynghyd â chynnydd o 30% i ystyried argostau). Tybir y byddai angen tri chyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo ac ymgynghori ar Asesiad o Anghenion Fferyllol ar gost o £600 y cyfarfod, gan ychwanegu £1,800 at y costau. Byddai'r gost uniongyrchol o gynhyrchu Asesiad o Anghenion fferyllol i bob bwrdd iechyd felly yn £26,700. Byddai disgwyl i'r gyfres gyntaf o Asesiadau o Anghenion Fferyllol gael eu cynnal yn 2020-21.

Byddai angen adolygu Asesiad o Anghenion Fferyllol yn drwyadl bob 5 mlynedd; amcangyfrifir y byddai'r gwaith hwn yn gyfartal â'r costau a amlinellir uchod. Yn ogystal, tybir y byddai byrddau iechyd yn gwneud mân ddiweddariadau i'w Hasesiadau o Anghenion fferyllol yn y blynyddoedd rhwng yr adolygiadau trwyadl, gan gymryd 5 diwrnod o amser gwaith uwch reolwr a 5 diwrnod o gefnogaeth weinyddol. Byddai cost pob diweddariad o'r fath felly oddeutu £2,500 i bob bwrdd iechyd.

## Crynodeb o amcangyfrif o'r costau o gwblhau Asesiad o Anghenion Fferyllol ar gyfer pob bwrdd iechyd

Elfen Gost	Blwyddyn Gychwynnol (£)	Blynyddoedd i Ddilyn, y flwyddyn (£)
Cyflog Band 8b	22,000	1,800
Cyflog Band 4	2,900	700
Cyfarfodydd cyhoeddus	1,800	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>26,700</b>	<b>2,500</b>
<b>Cyfanswm ledled Cymru</b>	<b>186,900</b>	<b>17,500</b>

Ni fyddai unrhyw ofyniad ffurfiol i wneud hynny, ond oherwydd natur dechnegol y broses rhagwelir y gallai byrddau iechyd fod eisiau sefydlu grŵp llywio i oruchwylio cwblhau eu Hasesiadau o Anghenion Fferyllol. Tybiwyd y byddai pob bwrdd iechyd yn cynnwys y cyngor iechyd cymunedol, contractwyr fferylliaeth gymunedol, meddygon teulu (gan gynnwys meddygon teulu fferyllol) a chynrychiolwyr o'r tîm iechyd y cyhoedd lleol. Amcangyfrifir y byddai tri pherson o bob grŵp yn mynychu hyd at bum cyfarfod hanner diwrnod yn y flwyddyn gyntaf, a phob pumed flwyddyn wedi hynny. Yn y blynyddoedd eraill, amcangyfrifir y byddent yn cyfarfod ddwywaith yn unig.

Amcangyfrifir costau am fynychu cyfarfodydd grŵp llywio lleol ar gost cyfle amser, gyda chynnydd o 30% ar gyfer argostau. Gwerthusir amser claf ar enillion wythnosol canolrifol y DU ym mis Ebrill 2019 (£760 yr wythnos)<sup>11</sup>, gwerthusir amser meddyg teulu yn unol â chyfartaledd enillion gros a threuliau meddyg teulu (£271,300 y flwyddyn (2017-18)) fel yr adroddwyd gan NHS Digital (29 Awst 2019)<sup>12</sup>. Gwerthusir amser fferylllydd ar gyflog cyfartalog fferylllydd (£37,100 y flwyddyn, wedi'u huwchraddio i £48,300 gydag argostau (Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol 2019)<sup>13</sup>. Amcangyfrifwyd amser tîm personél iechyd y cyhoedd lleol ar bwynt canol bandiau 8a Agenda ar gyfer Newid (£51,700 y flwyddyn (2020-21)<sup>14</sup>. Mae costau amser unigolion i gefnogi pob bwrdd iechyd i gyflawni ei Asesiad o Anghenion Fferyllol yn £13,800 i bob bwrdd iechyd yn y flwyddyn gyntaf, ac ymhob blwyddyn pan fydd yr Asesiad o Anghenion Fferyllol yn cael ei ddiweddarau'n drwyadl, a £5,500 i bob bwrdd iechyd yn y blynyddoedd eraill.

## Crynodeb o amcangyfrif Costau Grŵp Llywio i bob bwrdd iechyd

<sup>11</sup><https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2019>

<sup>12</sup><https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/gp-earnings-and-expenses-estimates/2017-18/chapter-2>

<sup>13</sup><https://www.ons.gov.uk/redir/eyJhbGciOiJIUzI1NiJ9.eyJpbmRleCI6MTAsInBhZ2VtaXplIjojMCwicGFnZSI6MiwiidXJpIjojL2VtCjE1bnRhbmcRyYwJvdXJtYXJrZXQvcGVvcGxlaW53b3JrL2Vhcm5pbmdzYW5kd29ya2luZ2hvdXJzL2RhdGFzZXRL3JlZ2l2bWJ5b2NjdXBhdGlvbjRkaWdpdHNVyZlwmMTBhc2hldGFibGUxNSIsImxpc3RUeXBlljoicmVsYXRIZGRhdGEifQ.fFThv6FEXU0inte3Mc4jZDI3FtoTscDyddGdm2-8Pns>

<sup>14</sup><https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.nhsconfed.org%2F-%2Fmedia%2FConfederation%2FFiles%2FWales-Confed%2FWales-Employers%2FFINAL-Framework-agreement-21-March-2018-amended-for-NHS-Wales-28-9-18.pdf%3Fla%3Den%26hash%3D60EF8EA28C962C12BF101C3C5E4D2AE3EBAC156B&data=02%7C01%7CMark.Welsby%40gov.wales%7Ce1b170eec8124f41a96408d79e92a726%7Ca2cc36c592804ae78887d06dab89216b%7C0%7C0%7C637152225016129043&sdata=yNHK0gm5SmaKulr5FACY23Oq%2FkBVNv%2F0NG0uv05YGA%3D&reserved=0>

<b>Elfen Gost</b>	<b>Blwyddyn Gychwynol (£)</b>	<b>Blynyddoedd i Ddilyn, y flwyddyn (£)</b>
Claf (x 3 pherson)	1,200	500
Meddyg teulu (x 3 pherson)	9,200	3,700
Iechyd y Cyhoedd (x 3 pherson)	1,800	700
Fferyllydd (x 3 pherson)	1,600	700
<b>Cyfanswm</b>	<b>13,800</b>	<b>5,600</b>
<b>Cyfanswm ledled Cymru</b>	<b>96,600</b>	<b>39,200</b>

Byddai pob Aseiad o Anghenion Fferyllol yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig yn unig, felly ni fyddai unrhyw gostau cyhoeddi.

Yn ogystal â datblygu'r Aseiad o Anghenion Fferyllol, byddai costau cyfieithu ynghlwm wrth hynny. Amcangyfrifir y byddai hynny'n costio oddeutu £600 i bob bwrdd iechyd ar gyfer diweddariad trwyadl (ar sail 6,000 o eiriau) a £100 ymhob blwyddyn arall (ar sail 1,000 o eiriau)<sup>8</sup>.

Felly amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost Aseidiadau o Anghenion Fferyllol i bob bwrdd iechyd (yn cynnwys costau'r grŵp llywio) yn £284,100 bob pumed blwyddyn, a £56,800 ymhob blwyddyn arall. Mae hyn yn gyfystyr ac amcangyfrif o gostau i bob bwrdd iechyd o £40,600 bob pumed blwyddyn a £8,100 ymhob blwyddyn arall.

#### *Costau i fyrddau iechyd wrth ymgymryd â rheoli perfformiad*

Mae byrddau iechyd eisoes yn ymgymryd â rheoli perfformiad contractwyr fferyllfa fel rhan o fframwaith contract cyfredol gwasanaethau fferyllol y GIG. Tybir na fyddai costau ychwanegol yn codi wrth nodi'r rhai hynny y dylid ystyried gweithredu yn eu herbyn.

Ar sail trafodaethau gyda byrddau iechyd, amcangyfrifir y gellid gweithredu yn erbyn hyd at bump o contractwyr fferyllol bob blwyddyn. Byddai pob achos yn arwain at gostau staff wrth gasglu gwybodaeth ychwanegol i nodi contractwyr o ansawdd gwael, rheoli'r broses ddisgyblu ac amddiffyn unrhyw apeliadau – a thybir y bydd hynny'n digwydd ymhob achos, gan mai dyna'r sefyllfa waethaf bosibl. Tybir y byddai'r broses hon angen cyfanswm o un uwch reolwr ac un swyddog gweinyddol cynorthwyol o fwrdd iechyd am hyd at 10 diwrnod – gwerthusir cyflogau blynyddol ar bwynt canol bandiau 8b a 4 Agenda ar gyfer Newid, sef £80,600 a £31,400 (Agenda ar gyfer Newid 2020-21 ynghyd â chynnydd o 30% i ystyried argostau). Yn seiliedig ar brofiad blaenorol, gan dybio costau cyfreithiol systemau rheoli perfformiad tebyg o £3,900 yr achos ar gyfartaledd, amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost flynyddol i fyrddau iechyd yn £24,600.

#### **Crynodeb o amcangyfrif costau rheoli perfformiad i bob bwrdd iechyd**

<b>Elfen gost</b>	<b>Blwyddyn (£)</b>
Cyflog band 8b	3,700
Cyflog band 4	1,400
Costau cyfreithiol	19,500
<b>Cyfanswm</b>	<b>24,600</b>

### Costau'n codi o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol i fodloni anghenion fferyllol

Byddai'r costau sy'n codi o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol yn ddibynnol ar ba anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni – os oes rhai – sy'n cael eu nodi ymhob Asesiad o Anghenion Fferyllol. Os nad yw Asesiad o Anghenion Fferyllol yn nodi unrhyw angen fferyllol nad yw'n cael ei fodloni, ni fyddai costau ychwanegol.

Tybir y bydd darparu gwasanaethau gwell, lle bo angen, yn adlewyrchu anghenion fferyllol y boblogaeth leol. Byddai byrddau iechyd yn gallu dylanwadu ar ansawdd darpariaeth y gwasanaeth a mynediad cleifion trwy gomisiynu gwasanaethau yn y lleoliadau sydd â'r angen mwyaf. Felly gallai Asesiadau o Anghenion Fferyllol arwain at fyrddau iechyd yn comisiynu mwy o wasanaethau gan ddarparwyr cyfredol yn ogystal â darparwyr newydd. O dybio y byddai Asesiad o Anghenion Fferyllol yn arwain at gomisiynu rhagor o wasanaethau i fodloni anghenion y boblogaeth leol, byddai darparu'r gwasanaethau hynny yn arwain at gostau i'r byrddau iechyd.

Mae cryn amrywiaeth yn y graddau y mae byrddau iechyd yn comisiynu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Mae nifer o resymau am hyn, yn anad dim y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu darparu gan ddarparwyr heblaw fferyllfeydd - fodd bynnag, ystyrir, yn rhannol o leiaf, y gall ffactorau sefydliadol fod yn gyfrifol am rywfaint o'r amrywiad, gan gynnwys penderfyniadau comisiynu byrddau iechyd nad ydynt yn cyd-fynd ag anghenion fferyllol eu poblogaethau lleol. Ategir y farn hon gan dystiolaeth a ddarparwyd i bwyllgor iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Pedwerydd Cynulliad yn ystod ei ymchwiliad i gyfraniad fferylliaeth gymunedol at wasanaethau iechyd yng Nghymru<sup>15</sup>.

Heb Asesiadau o Anghenion Fferyllol, nid oes unrhyw fodd o fesur yn wrthrychol y graddau y mae anghenion yn cael eu bodloni ar hyn o bryd. Felly nid yw cost darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol yn hysbys ar y pwynt hwn.

### Crynodeb o amcangyfrif costau i bob bwrdd iechyd

<b>Blwyddyn</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-22</b>	<b>2022-23</b>	<b>2023-24</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>
<u>Cost cwblhau Asesiadau o Anghenion Fferyllol</u>	<u>£40,600</u>	<u>£8,100</u>	<u>£8,100</u>	<u>£8,100</u>	<u>£8,100</u>	<u>£40,600</u>
<u>Cost o ymgymryd â rheoli perfformiad</u>	<u>£24,600</u>	<u>£24,600</u>	<u>£24,600</u>	<u>£24,600</u>	<u>£24,600</u>	<u>£24,600</u>
<u>Cyfanswm i bob bwrdd iechyd</u>	<u>£65,200</u>	<u>£32,700</u>	<u>£32,700</u>	<u>£32,700</u>	<u>£32,700</u>	<u>£65,200</u>

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru. CCC, Caerdydd. <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1532>

Cyfanswm ledled Cymru	£456,400	£228,900	£228,900	£228,900	£228,900	£456,400
-----------------------------	----------	----------	----------	----------	----------	----------

## Eraill

### *Arbedion cost yn deillio o ostyngiad mewn ceisiadau*

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i unigolyn sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG wneud cais i'r bwrdd iechyd perthnasol er mwyn gallu gwneud hynny. Mae'n rhaid i ddarpar ymgeiswyr lunio eu barn eu hunain am anghenion fferyllol y boblogaeth a fyddai'n cael eu bodloni gan eu fferyllfa arfaethedig, a digonolrwydd gwasanaethau fferyllol cyfredol. O dan yr opsiwn hwn, yn y dyfodol, byddai ymgeiswyr yn gallu cyfeirio at Asesiad o Anghenion Fferyllol y bwrdd iechyd wrth benderfynu gwneud cais ai peidio. Mae dros hanner y ceisiadau (heblaw'r rhai hynny sy'n ymwneud ag adleoli syml) a wneir i fyrddau iechyd ar hyn o bryd yn cael eu gwrthod (59% yn 2013-14), felly rhagwelir na fydd cyfran o'r ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno o dan y system bresennol yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Byddai hyn oherwydd y byddai Asesiad o Anghenion Fferyllol bwrdd iechyd yn ei gwneud yn amlwg yn syth nad oes angen gwasanaethau fferyllol ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr yn talu ffi bob tro maent yn gwneud cais i gael eu cynnwys ar restr fferyllol bwrdd iechyd. Mae'r ffi am gael lle o'r newydd ar y rhestr ar hyn o bryd yn £600. Disgwylir y byddai nifer y ceisiadau sy'n debygol o gael eu gwrthod yn gostwng, ond y byddai hyn yn cael ei wrthbwysu gan gynydd mewn ceisiadau nad ydynt yn cael eu cyflwyno ar hyn ond a fyddai'n deillio yn sgil unrhyw angen a nodir gan yr Asesiad o Anghenion Fferyllol. Tybir y bydd newid net o sero yn nifer y ceisiadau. Disgwylir y byddai rhai darpar ymgeiswyr yn elwa o gymharu â'r trefniadau cyfredol oherwydd y byddai ceisiadau'n fwy tebygol o fod yn llwyddiannus. Bydd graddfa wirioneddol y manteision yn dibynnu ar gyfran y ceisiadau a wneir sy'n llwyddiannus, ac felly nid yw'r union arbedion yn hysbys ar hyn o bryd

### *Costau cydymffurfio contractwyr*

Disgwylir i gontractwyr wynebu costau wrth ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer asesiad gan y byrddau iechyd. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gontractwyr yn gwneud y gwaith hwn eisoes er mwyn cyflawni eu hobygiadau monitro perfformio cyfredol. Fodd bynnag, mae nifer bach o gontractwyr nad ydynt yn gwneud y gwaith hwn, felly byddai'r rhain yn wynebu costau ychwanegol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cynrychioli baich gwaith a chost ychwanegol i 10% o gontractwyr. Amcangyfrifir bod yr amser i brofi cydymffurfio yn 5 diwrnod y flwyddyn. Os yw'r gwaith yn cael ei wneud gan dechnegydd fferyllfa, y mae ei amser yn costio £700 am bob 5 diwrnod (yn cynnwys argostau)<sup>16</sup>, a bod hyn yn gymwys i 70 o gontractwyr, y gost flynyddol fyddai £49,000 y flwyddyn o 2020-21.

### *Costau contractwyr i amddiffyn achosion mewn perthynas â rheoli perfformiad*

Tybir y byddai contractwr sy'n amddiffyn achos yn wynebu'r un costau â bwrdd iechyd yn cyflwyno achos. Mae hyn yn arwain at gostau blynyddol o £24,600 o 2020-21.

### *Costau i gontractwyr cyfredol trwy elw a gollir*

<sup>16</sup> Yn seiliedig ar raddfa uchaf band 4 Agenda ar gyfer Newid ynghyd ag argost o 30%



Tybir y bydd unrhyw elw a gollir gan gyflenwyr nad ydynt bellach yn cyflenwi'r GIG yn cael ei wrthbwyso gan elw a enillir gan gontractwyr cyfredol neu ddarparwyr newydd sy'n cymryd eu lle.

#### *Crynodeb o amcangyfrif costau i Gontractwyr*

<b>Blwyddyn</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-22</b>	<b>2022-23</b>	<b>2023-24</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-2026</b>
Costau cydymffurfio	£49,000	£ 49,000	£ 49,000	£ 49,000	£ 49,000	£ 49,000
Cost amddiffyn achosion	£ 24,600	£ 24,600	£ 24,600	£ 24,600	£ 24,600	£ 24,600
<b>Cyfanswm</b>	<b>£ 73,600</b>	<b>£ 73,600</b>	<b>£ 73,600</b>	<b>£ 73,600</b>	<b>£ 73,600</b>	<b>£ 73,600</b>

#### **Crynodeb o gostau ynghlwm wrth Opsiwn Option 2**

<b>Blwyddyn</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-22</b>	<b>2022-23</b>
Llywodraeth Cymru	£71,900	£21,900	£21,900	£21,900
Pob Bwrdd Iechyd	£0	£456,400	£228,900	£228,900
Contractwyr	£0	£ 73,600	£ 73,600	£ 73,600
<b>Cyfanswm</b>	<b>£ 71,900</b>	<b>£ 551,900</b>	<b>£ 324,400</b>	<b>£ 324,400</b>

#### **Manteision**

##### Bwrdd Iechyd

Disgwylir y bydd rhoi'r grym i fyrddau iechyd gymryd camau priodol yn erbyn contractwyr sy'n perfformio'n wael yn gwella ansawdd gwasanaeth, trwy wella safonau darparwyr gwael a darparwyr sy'n tanberfformio neu ddileu eu hawl i ddarparu gwasanaethau'r GIG a thrwy greu cymhelliant cyffredinol i godi safonau.

Nid yw'n bosibl rhagweld gwerth budd y claf sy'n debygol o ddeillio o'r mesurau hyn. Er mwyn gwerthuso a yw'r manteision yn gorbwysu'r costau, mae felly angen llunio sefyllfa gredadwy, geidwadol, sy'n tanamcangyfrif budd net tebygol y mesurau. Yn unol â hynny, nid yw'r manteision sy'n gysylltiedig â threfniadau ymadael cryfach wedi'u meintioli.

##### Arbedion i Eraill

O dan y trefniadau newydd, bydd busnesau manwerthu fferyllol yn gallu gweld yn glir ble mae'r bwrdd iechyd yn debygol o gael ceisiadau i agor adeilad newydd a symud adeilad presennol. Felly ni fydd ymgeiswyr yn gwneud ceisiadau ar hap mwyach heb wybod a ydynt yn debygol o gael eu derbyn. Bydd hyn yn golygu arbedion i'r ymgeisydd mewn perthynas â'r ffi ymgeisio ac mewn perthynas â'r ansicrwydd o ymrwymo i drefniadau prydles ar safle cyn gwybod a yw cais wedi'i dderbyn.

Ni ragwelir y byddai unrhyw anfantais net i gontractwyr fferyllfa, gan y byddai unrhyw anfantaision i gontractwyr presennol yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision cyfartal i'r newydd-ddyfodiaid.

## Manteision cymdeithasol

Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn hefyd yn arwain at fanteision anuniongyrchol pellach. Yn benodol, rhagwelir y byddai cynyddu'r gwasanaethau hyn yn arwain at ostyngiadau mewn amser teithio ac anghyfleustra i unigolion ac y gallai arwain at ddefnydd mwy effeithlon o wasanaethau iechyd, gan gynnwys rhyddhau amser ymgynghori â meddygon teulu, gan ganiatáu iddynt dreulio mwy o amser gyda phobl â chyflyrau mwy cymhleth. Gellid disgwyl manteision economaidd i gymunedau lleol lle sefydlir fferyllfeydd newydd hefyd. Mae fferyllfeydd cymunedol wedi'u nodi fel un o'r busnesau hanfodol sy'n allweddol i ffyniant economaidd mewn cymunedau<sup>17</sup>. Felly bydd newydd-ddyfodiaid yn cyfrannu at gynnal cymunedau lleol, darparu mynediad i siopa, cyflogaeth leol ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ellir meintioli'r manteision cymdeithasol hyn yn ariannol.

## **CRYNODEB A'R OPSIWN A FFEFRIR**

Byddai **Opsiwn Un** yn cynnal nifer y fferyllfeydd yng Nghymru ar lefel sefydlog gan y byddai'r trefniadau cyfredol yn parhau i weithredu fel rhwystr i fynediad i'r farchnad.

Nid yw Opsiwn Un yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau cyfredol ond mae ymatebion i ymgynghoriad blaenorol<sup>18</sup> ar reoli mynediad yng Nghymru yn awgrymu consensws bod y trefniadau hyn wedi dyddio ac yn annigonol. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn cydnabod ac yn cefnogi'r angen am newid.

**Opsiwn Dau** Mae'r dystiolaeth yn dangos manteision newid y trefniadau rheoli mynediad cyfredol yng Nghymru. Byddai cyflwyno Asesiad o Anghenion Fferyllol a threfniadau mynediad yn seiliedig ar angen yn mynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol ble mae'n bosibl nad yw anghenion fferyllol yn cael eu hasesu'n rheolaidd a ble nad yw cynllunio gwasanaeth fferyllol o reidrwydd yn cyd-fynd ag anghenion iechyd a nodwyd. Byddai'r newidiadau hefyd yn cryfhau rôl byrddau iechyd wrth benderfynu ble a gan bwy y darperir gwasanaethau o'r fath, ac yn darparu offer rheoli perfformiad i wella ansawdd a chysondeb darparu gwasanaethau gan gcontractwyr fferyllol.

Mae cyflwyno Asesiad o Anghenion Fferyllol a threfniadau mynediad yn seiliedig ar angen yn mynd i'r afael â'r sefyllfa gyfredol ble nad yw anghenion fferyllol o reidrwydd yn cael eu hasesu'n rheolaidd a ble nad yw cynllunio gwasanaeth fferyllol o reidrwydd yn cyd-fynd ag anghenion iechyd a nodwyd. Mae'r newidiadau hefyd yn cryfhau rôl byrddau iechyd wrth benderfynu ble a gan bwy y darperir gwasanaethau o'r fath, ac yn darparu arfau rheoli perfformiad i wella ansawdd a chysondeb darpariaeth gwasanaeth gan gcontractwyr fferyllol. Mae hefyd yn gwella potensial byrddau iechyd i wella cynllunio gwasanaethau fferyllol i fodloni anghenion y boblogaeth leol.

Felly Opsiwn Dau yw'r opsiwn a ffefrir, gan ei fod yn mynd i'r afael yn well â'r angen am well cynllunio, ateb anghenion fferyllol y boblogaeth leol, gwella penderfyniadau a rheoli perfformiad, gyda'r manteision fod y newid yn gorbwyso'r costau.

## **Asesiad o'r Gystadleuaeth**

---

<sup>17</sup> Adran Iechyd y DU. (1999) Improving Shopping Access for People Living in Deprived Neighbourhoods – a paper for discussion. Yr Adran Iechyd. Llundain.

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru (2011). Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Gwasanaethau Fferyllol y GIG yng Nghymru

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ neu x
<b>C1:</b> Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?	✓
<b>C2:</b> Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% yn y farchnad?	x
<b>C3:</b> Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, gyfran o 50% o leiaf yn y farchnad?	x
<b>C4:</b> Fyddai'r costau rheoleiddio'n cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd?	x
<b>C5:</b> Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	x
<b>C6:</b> Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau sefydlu i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
<b>C7:</b> Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
<b>C8:</b> A yw hwn yn sector sy'n gweld newidiadau technolegol cyflym?	x
<b>C9:</b> Fyddai'r broses reoleiddio'n cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	✓ (ond dim mwy nag ar hyn o bryd)

Nid yw'r prawf hidlo'r gystadleuaeth uchod yn dynodi angen am asesiad cystadleuaeth llawn. Ni ddisgwyllir unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth.